


## Dyddiad cychwyn – Mehefin 22ain

Mae'r dyddiad cychwyn ar gyfer yr estyniad newydd wedi ei gytuno, gyda'r contractwyr yn cychwyn ar y gwaith ar ddydd Llun yr 22ain o Fehefin.



Hoffwn ddiolch i'r rhieni ac aelodau o'r cyhoedd a fynychodd y sesiwn galw-i-fewn ddydd Mawrth, gyda'r contractwyr yn rhannu cynlluniau a gwybodaeth parthed y cyfnod adeiladu a fydd yn digwydd dros y flwyddyn a mwy nesaf.

**Diogelwch y safle** – wrth ystyried yr angen i lorïau gludo nwyddau i'r safle adeiladu, cytunwyd na fyddai hynny'n digwydd rhwng yr oriau 8:00 a 9:15yb; na rhwng 2:45 a 4:00yp. Bydd holl gerbydau'r gweithwyr yn cael eu cadw ar gae yr ysgol, ynghyd â'r holl offer adeiladu. Yn ystod y cyfnod adeiladu, bydd angen cadw'r ardal ger y giât i'r cae yn glir ar gyfer hyn.

WYNNE CONSTRUCTION

Bydd y contractwyr yn rhoi cyflwyniad ar y gwaith adeiladu, gan gynnwys iechyd a diogelwch, i ddisgyblion yr ysgol yn ystod yr wythnosau nesaf.

## *Start date – June 22nd*

*The start date for the new extension has been agreed, with the contractors beginning work on Monday, 22nd June.*

*I would like to thank the parents and members of the public who attended the drop-in session on Tuesday, where the contractors shared plans and information regarding the construction period that will take place over the next year and more.*

***Site safety** – in consideration of the need for lorries to deliver goods to the construction site, it has been agreed that this will not take place between 8:00 and 9:15am, nor between 2:45 and 4:00pm. All workers' vehicles will be kept on the school field, along with all construction equipment. During construction, the area near the gate to the field will need to be kept clear.*

*The contractors will give a presentation to the schoolchildren on the construction work, including health and safety information, during the coming weeks.*

---




## Sioe Aberystwyth - yfory

Cofiwch fod Sioe Aberystwyth yfory. Os hoffech i Mrs Buddug Davies fynd â'r cynnyrch gyda hi mae'n rhaid iddo gyrraedd cyn 2 o'r gloch prynhawn yma. Fel arall mae croeso i chi fynd â'r cynnyrch eich hunain wrth gwrs.

Pob dymuniad da i bawb sy'n cystadlu, a dymunwn pob llwyddiant i'r sioe.

## *Aberystwyth Show - tomorrow*

*Please remember that the Aberystwyth Show is tomorrow. If you would like Mrs Buddug Davies to take your entries with her, they must arrive before 2 o'clock this afternoon. You are of course welcome to take your entries yourselves.*

*Best wishes to everyone who is competing, and we wish the show every success.*

---




## Cyfarfod Cyhoeddus Eisteddfod yr Urdd 2029

Gydag Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn ymweld â Cheredigion yn 2029, cynhelir cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Uwchradd Aberaeron ar nos Iau y 18fed o Fehefin am 6:30yh. Croeso cynnes i bawb. (Poster llawn ar waelod y llythyr)

## *Public Meeting – Urdd Eisteddfod 2029*

*With the National Urdd Eisteddfod coming to Ceredigion in 2029, a public meeting will be held at Aberaeron Secondary School on Thursday, 18th June at 6:30pm*
*A warm welcome is extended to everyone.*
*(Full poster at the end of this letter.)*

---




## Sioe Arad Goch – Dosbarth Miss Pryddерch

Bydd disgyblion bl.3-6 yn mynychu Theatr y Werin ar fore dydd Gwener y 19$^{eg}$ o Fehefin i weld sioe Dosbarth Miss Prydderch. Gwerthfawrogir cyfraniad o £2.50 y plentyn (trwy ParentPay) Diolchwn i Mrs Nia Evans, Cadeirydd y Llywodraethwyr am sicrhau grant o £1,000 tuag at y costau.

## *Arad Goch – Dosbarth Miss Prydderch*

*Pupils in Years 3–6 will attend the Arts Centre on the morning of Friday 19$^{th}$ June, to watch show 'Dosbarth Miss Prydderch'*
*A contribution of £2.50 per child would be appreciated (via ParentPay). We would like to thank Mrs Nia Evans, Chair of Governors, for securing a grant of £1,000 towards the costs.*

---




## C.RH.A – archebu tywelion tê

Mae'r plant wedi bod yn brysur yn paratoi at y tywelion tê sydd wedi eu trefnu gan y G.Rh.A Dyma ddolen i chi archebu'r tywelion ymlaen llaw – mae dau dywel yn cael eu cynhyrchu ar gyfer y plant iau ac hŷn. Os hoffech archebu dau mae disgownt gyda'r côd **2AM£10**. Byddant yn eich cyrraedd cyn diwedd y tymor.

Siop CRhA Ysgol Gymraeg Aberystwyth PTA
(Cofiwch roi enw a dosbarth yn y checkout)

## *PTA – tea towels order*

*The children have been busy preparing for the tea towels organised by the PTA. Here is a link for you to pre-order the tea towels. Two tea towels are being produced—one for the younger children and one for the older children. If you would like to order both, a discount is available using the code **2AM£10**. The tea towels will arrive before the end of term.*

Siop CRhA Ysgol Gymraeg Aberystwyth PTA
(Put your child's name and class in checkout)

---

## Digwyddiadau a llwyddiannau

Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – C.Rh.A


## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg

Instagram – P.T.A

---




## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

### Dyddiadau pwysig Tymor yr haf 2026:

- H.M.S : Mehefin 22$^{ain}$ (Dydd Llun)
- Mabolgampau Meithrin : Mehefin 25$^{ain}$
- Mabolgampau gweddill yr ysgol : Gorffennaf 2$^{ail}$
- Barbeciw/Gŵyl haf y G.Rh.A : Gorffennaf 16$^{eg}$
- Diwrnod ola'r tymor : Gorffennaf 17$^{eg}$

### *Summer term 2026 important dates:*


- *I.N.S.E.T Day : June 22$^{nd}$ (Monday)*
- *Meithrin Sports Day : June 25$^{th}$*
- *Sports Day for rest of school : July 2$^{nd}$*
- *PTA Barbeque/Summer Festival : July 16$^{th}$*
- *Last day of term : July 17$^{th}$*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**12/06/2026**
www.ysgolgymraeg.cymru

# HUFEN IÂ *dros yr haf!*

ICE CREAM FRIDAYS!



Os ma'r tywydd yn caniatau / Weather permitting:

12.6. 26

19.6. 26

2.7. 26 (MABOLGAMPAU)

10.7. 26

*Welwn ni chi wrth y gatiau! See you at the school gates!*

---

Ceredigion

Ceredigion

# Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2029

# CYFARFOD CYHOEDDUS

18/06/2026

6.30yh

Ysgol Uwchradd Aberaeron

**Croeso i bawb! / All welcome!**

**Cofrestrwch yma / Register here**

---

Clwb Beicio Ystwyth Cycling Club | CEREDIGION ACTIF | BEICIO CYMRU | Festiva | Summit BEICS·CYCLES

## ABER CYCLEFEST RASUS IFANC 2026

**Dydd Gwener 26/06/26**

**1.30-3.30yp**

CANOL Y DRE - ABERYSTWYTH

Dewch i ymuno â ni am brynhawn o rasys beiciau hwyl yng nghanol tref Aberystwyth i ddathlu dychweliad Pencampwriaethau Beicio Prydain.

Rasys ar gyfer:

- Meithrin a derbyn
- Bl. 1 & 2
- Bl. 3 & 4
- Bl. 5 & 6
- Bl. 7 +

Mae'r ras hon hefyd yn rownd 2 o rasys Cyfres Haf Ystwyth Ieunctid (12 Mehefin/10 Gorffennaf)

## ABER CYCLEFEST JUNIORS RACES 2026

**Friday 26/06/26**

**1.30-3.30pm**

ABERYSTWYTH TOWN CENTRE

Come and join us for an afternoon of fun bike racing in Aberystwyth town centre to celebrate the return of the British Cycling Championships.


Races for:

- Nursery and reception
- Yr. 1 & 2
- Yr. 3 & 4
- Yr. 5 & 6
- Yr. 7 +

This race is also round 2 of the Ystwyth Juniors Summer Series races (12th June/July 10th)

Cofrestrwych yma:
Register here:

**www.facebook.com/ystwythjuniors**




**Tocynnau am ddim - Free tickets for Musicfest Aberystwyth!**

Mae Musicfest Aberystwyth yn un o brif ŵyliau cerddoriaeth rhyngwladol Prydain. Mae'n gyfle i brofi rhai o gerddorion clasurol gorau'r byd rhwng yr 18 – 25 o Orffennaf. Mae pob tocyn i bob cyngerdd am ddim i bawb dan 25 oed. I weld rhaglen yr ŵyl ewch i www.musicfestaberystwyth.org. I archebu tocynnau am ddim i'r rhai dan 25 oed, cysylltwch â Swyddfa Docynnau Canolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ar 01970 623 232.

Musicfest Aberystwyth is one of the UK's main international music festivals. It's a rare opportunity to experience some of the best classical musicians in the world from the 18 – 25 of July. All tickets to all concerts are free for everyone under 25. To see the festival programme go to www.musicfestaberystwyth.org. All free tickets for under 25's must be booked via the Box Office at Aberystwyth Arts Center on 01970 623 232.